
26AIN O FEDI

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

Wythnos yma, mae disgyblion blwyddyn 6 wedi mwynhau ymweliad hyfryd i Wersyll yr Urdd Llangrannog. Roedd y tywydd yn fendigedig a chafodd y disgyblion gyfle i wneud llu o weithgareddau. Yn ogystal, cyfarfod gyda disgyblion ysgolion y clwstwr fydd yn ymuno gyda nhw mis Medi nesaf ym Mhlasmawr. Diolch yn fawr i'r staff wnaeth rhoi eu hamser i ofalu ar ôl y disgyblion.

### Cyfarfod yn sôn am flaenoriaethau'r flwyddyn

Dydd Iau'r ail o Hydref, bydd cyfarfod i rieni yn neuadd yr ysgol am 10.00 yb a 5.00 yh. Bwriad y cyfarfod yw cyflwyno ein blaenoriaethau a'n amcanion ar gyfer y flwyddyn academaidd hon. Byddwn hefyd yn sôn am ein polisau diogelu, ein disgwyliadau ac yn sôn am brosiectau'r flwyddyn. Mae croeso mawr i bawb a bydd lluniaeth ysgafn yn cael ei baratoi ar eich cyfer.

### Clwb Brecwast

Os ydy eich plentyn yn mynychu'r Clwb Brecwast gofynnwn yn garedig i bawb gyrraedd rhwng 8.10yb - 8.20yb. O ddydd Llun ymlaen byddwn yn cau'r giatiau am 8.20. Cofiwch ein bod yn darparu brecwast i bawb yn y clwb. Os nad ydych am ddefnyddio'r Clwb Brecwast, rhowch wybod i ni, oherwydd mae gennym restr o ddisgyblion sy'n awyddus i gael lle yn y Clwb Brecwast. Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

## Calendr

**29.9.25**
**Clybiau yn ail ddechrau ar ôl ysgol**

**2.10.25**
**Cyflwyniad i rieni yn neuadd yr ysgol**

# Y Nyth

Llynedd, fe lansiwyd Hwb Cymunedol yr Ysgol "Y Nyth", gyda'r nod o greu lle cynnes a chefnogol i'n cymuned ysgol gyfan. Wrth i ni edrych ymlaen at ddatblygu'r fenter ymhellach eleni, byddem yn gwerthfawrogi eich barn i'n helpu i wella a datblygu'r hyn a gynigwn.

Hoffem wybod:

- A ydych chi wedi manteisio ar weithgareddau/gweithdai'r Hwb?
- Beth oedd eich profiad?
- A oes unrhyw wasanaethau neu weithgareddau yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnig yn y dyfodol?
- Beth allwn ni ei wneud i wella'r cynnig?

Bydd eich adborth yn werthfawr wrth i ni geisio sicrhau bod "Y Nyth" yn ateb anghenion ein cymuned ysgol. Felly, os oes gennych ychydig funudau i lenwi holiadur byr, gallwch wneud hynny yma:

**Y NYTH**

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus.

# Clybiau Tymor yr Hydref

Bydd y clybiau yn cychwyn ar nos Lun y 29ain o Fedi. Ni fydd clybiau yn ystod wythnos Nosweithiau Rhieni (yr wythnos yn cychwyn y 3ydd o Dachwedd). Mae'r clybiau yn agored i bawb, ond gofynnwn i chi gofrestru eich plentyn ar Parent Pay. Bydd y clybiau yn gorffen am 4.30yh a gofynnwn i chi gasglu eich plentyn yn brydlon. Diolch i'r staff sy'n cynnal y clybiau.

| Pryd?/ When? | Clwb/ Club | Pwy?/ Who? |
|---|---|---|
| Dydd Llun/Monday | Pêl-droed merched /Girls football | Bl 5 a 6/ Y5 and 6 |
| Dydd Llun/ Monday | Garddio Creadigol/ Creative Gardening | Bl 4/ Y4 |
| Dydd Llun/ Monday | Kidslingo (Sbaeneg/ Spanish) | Bl 3/ Y3 |
| Dydd Mercher/ Wednesday | Pêl-droed bechgyn / Boys Football | Bl 5 a 6/ Y5 and 6 |
| Dydd Mercher/ Wednesday | Pêl-Rwyd/ Netball | Bl 5 a 6/ Y 5 and 6 |
| Dydd Mercher/ Wednesday | Kidslingo (Sbaeneg/ Spanish) | Bl 4/ Y4 |
| Dydd Iau/ Thursday | Pêl droed cymysg/ Mixed football | Bl 4/ Y4 |
| Dydd Gwener/ Friday | Dancefit | |

# Noson Bingo

Cofiwch i archebu eich tocynnau ar gyfer y Noson Bingo, nos Wener y 3ydd o Hydref am 7.00yh yn neuadd yr ysgol. Croeso mawr i bawb!




# Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**
Rydw i'n hoffi/ Dwi'n hoffi
Dydw i ddim yn hoffi
**Her**
Mae'n well gen i…na

**Testun trafod yr wythnos**
Fy hoff le yn y byd yw…

**Cân yr wythnos**
Papur Wal -Llyn Llawenydd

**Idiom yr wythnos**
Mynd dros ben llestri